OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 320 (Cy.51) (C.10)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2012

Gwnaed - - - - 8 Chwefror 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 24(2) a 26(3) o Fesur Addysg (Cymru) 2009(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Mesur 2009" ("*the 2009 Measure*") yw Mesur Addysg (Cymru) 2009.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 10 Chwefror 2012

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn yn Rhan 1 (apelau a hawliadau addysg gan blant) o Fesur 2009 i rym ar 10 Chwefror 2012—

(a) adran 3 (cyfeillion achos);

(b) adran 7 (gweithdrefn y tribiwnlys);

(c) adran 8 (gweithdrefnau ar gyfer gwneud rheoliadau);

(ch) adran 11 (gweithdrefn y tribiwnlys)(**2**);

(d) adran 12 (cyfeillion achos)(**3**);

(dd) adran 17 (treialu hawliau plentyn i apelio neu i wneud hawliad);

(e) adran 18 (pŵer i wneud darpariaeth ynghylch apelau a hawliadau gan blentyn);

(f) adran 19 (dehongli adrannau 17 ac 18);

(ff) adran 23 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 1 a 4 o'r Atodlen; a

(g) paragraffau 1 a 4 o'r Atodlen.

(**1**) 2009 mccc 5. Diwygiwyd adrannau 9 i 19, 26 a'r Atodlen i Fesur 2009 gan O.S. 2011/1651 (Cy. 187).
(**2**) Diwygiwyd adran 11 gan O.S. 2011/1651, erthygl 5.
(**3**) Diwygiwyd adran 12 gan O.S. 2011/1651, erthygl 6.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 6 Mawrth 2012

3. Daw'r darpariaethau a ganlyn yn Rhan 1 (apelau a hawliadau addysg gan blant) o Fesur 2009 i rym ar 6 Mawrth 2012—

(a) adran 1 (hawl plentyn i apelio mewn cysylltiad ag anghenion addysgol arbennig);

(b) adran 2 (hysbysu a chyflwyno dogfennau);

(c) adran 4 (cyngor a gwybodaeth);

(ch) adran 5 (datrys anghydfodau);

(d) adran 6 (gwasanaethau eirioli annibynnol);

(dd) adran 9 (hawl plentyn i wneud hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd);

(e) adran 10 (amser ar gyfer dwyn achos);

(f) adran 13 (cyngor a gwybodaeth);

(ff) adran 14 (datrys anghydfodau);

(g) adran 15 (gwasanaethau eirioli annibynnol);

(ng) adran 16 (rôl Gweinidogion Cymru);

(h) adran 23 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 2, 3 a 5 o'r Atodlen; a

(i) paragraffau 2, 3 a 5 o'r Atodlen.

Darpariaethau Trosiannol

4. Ar unrhyw adeg pan fo rheoliadau o dan adran 17 o Fesur 2009 mewn grym—

(a) mae adran 332A o Ddeddf Addysg 1996 yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ac eithrio Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel petai'r diwygiadau a wnaed gan adran 4(2) o Fesur 2009 heb fod mewn grym;

(b) mae adran 332B o Ddeddf Addysg 1996 yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ac eithrio Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel petai'r diwygiadau a wnaed gan adran 5(2) o Fesur 2009 heb fod mewn grym.

Leighton Andrews
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

8 Chwefror 2012